

TUDUR HALLAM YN CAEL EI ANRHYDEDDU GAN BRIFYSGOL ABERTAWE
-CATRIN NEWMAN



Mae Prifysgol Abertawe wedi cyflwyno gradd Doethur er Anrhydedd mewn Llenyddiaeth i'r Athro Brifardd Tudur Hallam yn gydnabyddiaeth am ei gyfraniad eithriadol i lenyddiaeth a diwylliant Cymraeg. Cyflwynwyd yr anrhydedd iddo mewn cynlluniad graddio ar Gampws y Bae Prifysgol Abertawe ar brynhawn dydd Mawrth, 9 Rhagfyr 2025.

Daw'r Gymrodoriaeth yn dilyn llwyddiant ysgubol yr Athro Hallam yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam eleni pan gyflwynwyd y Gadair iddo mewn seremoni orseddog deimladwy.

Yn frodor o Ddyffryn Aman, enillodd Tudur Hallam radd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg a PhD o Brifysgol Aberystwyth, cyn cychwyn ar yrfa darlithydd yn Adran y Gymraeg yn 1999.

Fe'i penodwyd i Gadair y Gymraeg yn 2011, a bu'n addysgu ac ymchwilio ym maes y Gymraeg yno tan ei ymddeoliad o'r rôl yn 2025 yn sgil tor iechyd. Erbyn hyn, mae'n Athro Emeritws Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae ei gyhoeddiadau'n cwmpasu ystod eang o bynciau ym maes y Gymraeg, gan gynnwys Canon ein Llên, Saunders y Dramodydd, Llawlyfr Meistrolir Gymraeg, a'i gyfrol o gerddi Parcio. Yn ogystal, cydolygodd dair cyfrol yng nghyfres Ysgrifau Beirniadol gydag Angharad Price.

Bu'n Athro Gwadd ym Mhrifysgol Houston, Texas yn 2016-17 dan nawdd Comisiwn Fulbright, gan edrych ar sefyllfa'r Gymraeg a'r Sbaeneg, a'r tebygrwydd rhwng ieithoedd a diwylliannau sy'n wynebu gor-ddylanwad y Saesneg.

Roedd eisoes wedi ennill Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol, a hynny yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd yn 2010 â'r gerdd

Ennill Tir, a daeth ei lwyddiant eleni ag e i linach brin o brifeirdd a enillodd Gadair y Genedlaethol yr eildro. Mae'r cyfansoddiad personol a dirdynol hwnnw yn dwyn y teitl 'Dinas' yn ymwneud â'i brofiad o dderbyn diagnosis canser.

Wrth dderbyn ei Gymrodoriaeth er Anrhydedd, meddai'r Athro Tudur Hallam: "Ces i yrfa hapus iawn ym Mhrifysgol Abertawe. Ces gyfle i weithio ag ysgolheigion amlwg mewn sawl maes, a mwynheais rannu â'm myfyrwyr y wefr y mae creadigrwydd yn ei roi i mi. Braint bob amser oedd eu dysgu a'u gweld yn datblygu a graddio. Heddiw, mae derbyn yr anrhydedd hon gan y brifysgol yn ffrind fawr i fi a'r teulu. Fedraf fi ond dweud diolch a dymuno'r gorau i'r brifysgol wrth iddi barhau i gefnogi'r Gymraeg tua'r dyfodol."

Ar ran y Brifysgol, meddai'r Athro Gwenno Ffrancon, Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol ar gyfer y Gymraeg, ei Threftadaeth a'i Diwylliant a Chyfarwyddwr Academi Hywel Teifi: "Mae cyfraniad yr Athro Emeritws Tudur Hallam i ysgolheictod y Gymraeg, i lenyddiaeth a diwylliant Cymraeg, ac i fywyd ei genedl yn helaeth a chyfoethog. Mae'n llawn haeddu Cymrodoriaeth er Anrhydedd gan Brifysgol Abertawe am y cyfraniad hwnnw ac mae'n hyfryd gwybod ei fod yn cael ei gydnabod fel hyn.

"Bu'n Athro'r Gymraeg ysbrydoledig a phrofodd yn olynedd hynod deilwng i rai o gewri Adran y Gymraeg Abertawe – yr Athro Henry Lewis, Saunders Lewis, yr Athro T J Morgan, yr Athro Brynley F. Roberts, yr Athro Hywel Teifi Edwards, a'r Athro Brifardd Christine James. Mae cynifer o fyfyrwyr wedi elwa nid yn unig o'i addysgu rhagorol ond hefyd o'i ofal drostynt a'i anogaeth ac mae diolch graddedigion a chydweithwyr Abertawe iddo am hynny yn sylweddol."

NOSON GAROLAU CÔR Tŷ Tawe

-HEINI GRUFFUDD

Roedd Tŷ Tawe o dan ei sang nos Lun 15 Rhagfyr ar gyfer noson garolau'r côr.

Gydag Edward-Rhys Harry'n arwain, canodd y côr ddetholiad o garolau, gan gynnwys trefniant hudolus Edward o garolau Daniel Protheroe. Cyfansoddwyd y trefniant yn arbennig i'r côr ac i Gorâl Cymreig Llundain.

Cafwyd eitemau gan nifer i'r côr, gan gynnwys unawdau gan Rex Beynon a Bill Gannon, deuawd gan Linda Williams a Catrin Alun, a dwy eitem ar y piano gan Fiona Gannon, cyfeilydd y côr. Darllenwyd cerddi gan Helen Evans a Carey Thomas.

Roedd yn noson Nadoligaidd hyfryd.



BRETHYN CARTREF

-GARETH RICHARDS

Noson o hel atgofion a gafwyd yng nghyfarfod Tachwedd. Bu pedwar o'r aelodau yn cofio am eu magwraeth yng ngwahanol ardaloedd o Gymru.

Dangosodd David Gwyn John hen ffilm o waith Gwyn Evans, Ynysforgan ar y gwaith o godi'r M4 trwy ganol y pentref. O ganlyniad i'r datblygiad chwalwyd chwech o dai ac Ysgol Sul Ynysforgan, cangen o'r Tabernacl, Treforys. Llanwyd y gamlas a chodwyd y rheilffordd ac mae hiraeth mawr ar eu hol.

Soniodd Ann Davies am ei magwraeth ar fferm fach o'r enw Pantwmffre, ger pentref Capel Dewi yn Nyffryn Tywi. Disgrifiodd yn fanwl y ddefod o odro gyda llaw, cyn i drydan ddod i'r ardal. Ac yn dilyn hynny y ffordd o oeri'r llaeth cyn iddo fynd i'r tshyrn a'i roi ar y stand laeth yn gynnar yn y bore i'w gasglu gan lori laeth United Dairies.

Roedd ci defaid da yn angenrheidiol hefyd i nôl y da/gwartheg lawr i'r heol fawr lle roedd ei thad yn disgwyl amdanynt ac yn rheoli'r traffig. Roedd hyn yn digwydd fore a nos ar gyfer y godro.

Roedd ceffyl gwedd yn angenrheidiol hefyd ar gyfer gwaith y fferm cyn dydd y tractor. Y ceffyl oedd yn tynnu pob math o beiriant a'r gambo wrth gywain gwair.

Fe ddaeth trydan i'r ardal yng nghanol y pumdegau, yna, wrth gwrs fe ddaeth y peiriant godro a golau trydan ym mhob man - yn y tŷ a'r adeiladau allan. Dim rhagor o gario lampau - gwyrrh! Fe ddaeth y tractor hefyd, Allis-Chalmers, ac fe ddaeth peiriannau newydd / gwahanol, yn sgil hynny.



Y Parchg Eirian Wyn, Ann Davies, David Gwyn John, Robat Powell

Ei Mam oedd yn edrych ar ôl yr ieir/ffowls ac roedd nifer fawr yn cael eu cadw yn y berllan, gan ei bod yn mynd â chwedeg dwsin o wyau i farchnad Llanelli bob dydd Sadwrn - ym mhob tywydd, haf a gaeaf.

I Lyn Ebwy yr aethom yng nghwmni Robat Powell a chael blas ar fywyd tref ddiwydiannol ar gyrion dwyreiniol cymoedd y de. Rhes hir o dai deras oedd Drysiog Street ac yno y treuliodd Robat ei ieuencid yn chwarae ar yr hewl fawr gan ddianc i lethrau'r mynydd hefyd adeg eira neu haul braf. Dywedodd fod y gymdeithas glòs, gyfartal, yn y stryd wedi helpu ffurfio ei agwedd at fywyd yn ddiweddarach.

Yn agosach at adre cawsom flas ar fywyd fferm y Rhosfa ym Mrynaman gan Eirian Wyn, Cadeirydd y Gymdeithas. Treuliodd gyfnodau hapus iawn yn cynorthwyo ar lethrau'r Mynydd Du a chawsom ddisgrifiadau byw o'r dyletswyddau trwy'r tymhorau.

Bydd rhaglen 2026 yn dechrau ar 15 Ionawr am 7 o'r gloch pan fydd Lleisiau Lliw yn ein diddanu. Y cyfarfod i'w gynnal yn Seion Newydd, Treforys. Croeso cynnes i bawb.

PLAC I GOFIO WITTGENSTEIN

-DAFYDD WILLIAMS

Ynghanol glaw storom Claudia, ddadorchuddiwyd plac glas i gofio'r athronydd enwog Ludwig Wittgenstein o Linz, Awstria, a fu'n ymwelydd cyson â Langland, ac yn byw am gyfnod yn y 1940au yn Langland Road.

Bu cryn sylw yn ddiweddar i waith Wittgenstein, gan gynnwys drama gan y Dr Alan Sandry o Brifysgol Abertawe a berfformiwyd yn Theatre Taliesin.



Yn y llun ar ôl y ddadorchuddiad gwelir (o'r chwith) Dr Alan Sandry, gydag Archifydd Gorllewin Morgannwg Andrew Dullew a'r Cyngorydd Elliot King, aelod Cabined Cyngor Abertawe dros ddiwylliant.

Y DEIS - PWY FYDDWCH CHI'N EU HADNABOD?

-HELEDD AP GWYNFOR

Mae'r Deis yn rhaglen gwis adloniannol sydd i'w gweld ar S4C bob nos Fercher am 8.25pm. Nid sioe gwis arferol yw hon. Mae tri thîm o ddau (ffrindiau, teulu, cydweithwyr) yn wynebu ei gilydd dros sawl rownd, gan gronni eu pot trwy feddwl yn gyflym a thactegau clyfar. Ond dim ond un tîm sydd yn ennill y cyfle i gyrraedd y rownd derfynol – sy'n ras ddramatig yn erbyn y cloc i gipio'r jacpot. Y tro annisgwyl? Y deis – peiriant a all newid y gêm mewn eiliad.

Bydd y rhain o Abertawe'n cystadlu yn fuan:

- Luke Clement & Martin Davies – Ffrindiau o Abertawe – 4ydd Chwefror
- Llŷr Owain & Bethan Sleep – Ffrindiau o Gaerdydd ac Abertawe. – 1leg Chwefror
- Cai Thomas & Harri Evans – Ffrindiau o Gorseinon a Llangefni. – 1leg Chwefror
- Hammad Hassan Rind & Osian Gruffydd – Ffrindiau o Gaerdydd ac Abertawe – 25ain Chwefror

Cofiwch gadw eich llygaid allan / mas!

Crëwyd y fformat gan Gavin Cox o o gwmni cynhyrchu Slam Media sydd yn cynhyrchu'r gyfres hon i S4C. Cafodd Gavin ei ysbrydoli gan yrfa ei ddiweddar dad yn dylunio gemau peiriannau ffrwyth – tarddiad perffaith ar gyfer cwis sydd yn seiliedig ar sgil a siawns. Y peiriant deis ei hun yw canolbwynt gweledol y rhaglen, sydd yn ychwanegu elfen theatrig i'r chwarae.

Mae'r Deis yn gydweithio Celtaidd nodedig. Mae'r darlledwr Gwyddelig TG4 eisoes wedi caffael y fformat i greu An Deis, eu fersiwn iaith Wyddeleg eu hunain, sydd hefyd wedi'i ffilmio yng Nghaerdydd.

PRIFYSGOL ABERTAWE'N DYFARNU DOETHURIAETH ER ANRHYDEDD I CAROL VORDERMAN

-CATRIN NEWMAN

Mae Prifysgol Abertawe wedi dyfarnu gradd Doethuriaeth er anrhyddedd mewn Gwyddoniaeth i'r darlledwr a'r awdur Carol Vorderman MBE i gydnabod ei gwasanaethau i ddarlledu ac addysg STEM.

Dyfarnwyd yr anrhyddedd ddydd Iau 11 Rhagfyr yn ystod Seremonïau Graddio'r Gaeaf y Brifysgol yn y Neuadd Fawr ar Gampws y Bae'r Brifysgol.

Mae dyfarniadau er anrhyddedd yn cydnabod unigolion sydd wedi gwneud cyflawniadau rhagorol a chyfraniadau sylweddol yn eu meysydd.

Ganwyd Carol ym 1960, a chafodd ei magu mewn tloidi mewn teulu rhiant sengl yng ngogledd Cymru. Er gwaethaf y dechrau anodd, fe wnaeth ragori'n academaidd gan ennill lle ym Mhrifysgol Caergrawnt i astudio peirianeg yn 17 oed yn unig.

Yn ei gyrfa gynnar, bu'n gweithio fel peiriannydd sifil ym Mhwerdy Dinorwig yn Llanberis, ac wedyn cafodd hi le ar raglen hyfforddi rheolwyr i raddedigion yn Leeds.

Dechreuodd gyrfa Carol ym myd teledu pan welodd ei mam hysbyseb yn The Yorkshire Post yn chwilio am fenyw a chanddi sgiliau mathemategol da i gyd-gyflwyno rhaglen gwis newydd ar Channel 4. Enillodd Carol y rôl gan ddod yn enw adnabyddus yng nghartrefi Prydain fel cyd-gyflwynydd Countdown ers ei lansio ym 1982 tan 2008. Yn 2000, cafodd ei phenodi'n MBE yn Anrhyddedau Pen-blwydd y Frenhines.



Mae ei hangerdd dros fathemateg yn ymestyn ymhell y tu hwnt i ddarlledu. O 2009 i 2011, bu'n gadeirydd tasglu'r llywodraeth i wella addysg fathemateg i blant, ac yn ddiweddarach sefydlodd themathsfactor.com, a gefnogodd tua hanner miliwn o ddisgyblion cynradd yn ystod pandemig Covid.

Yn 2021, traddododd Carol ddarlith ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod ar gyfer Ffowndri Gyfrifiadol Prifysgol Abertawe, canolfan adrannau mathemateg a chyfrifiadureg y Brifysgol, gan rannu gwybodaeth am ei bywyd, ei gyrfa a'i phrofiadau fel menyw ym myd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg.

ENNILL ISETHOLIAD YN ABERTAWE

-DAFYDD WILLIAMS

Cafodd aelodau lleol o Blaid Cymru gyfarfod ag enillydd isetholiad Caerffili yn Abertawe ddiwedd Tachwedd.

Roedd yr Aelod Senedd newydd o'r Blaid Lindsay Whittle yn westai mewn digwyddiad arbennig yn yr Uplands, Abertawe oedd yn nodi canmlwyddiant ffurfio Plaid Cymru.

"Rydyn ni wrth ein boddau i groesawu Lindsay i Abertawe, ac yn edrych ymlaen i lwyddiant tebyg i Blaid

mewn mannau eraill yn yr etholiadau Senedd ym Mis Mai", meddai arweinydd ymgeiswyr y Blaid yn etholaeth Gŵyr Abertawe Dr Gwyn Williams.

"Dangosodd is-etholiad Caerffili y mis diwethaf fod y Blaid Lafur bellach yn llusgo yn y trydydd lle a taw dim ond Plaid Cymru all atal Reform a'r asgell dde yn ein gwlad".

HOLI FOO SENG, ENILLYDD SIARADWR CYMRAEG NEWYDD GWOBRAU YSBRYDOLI!

-ANEST ROBERTS, Y GANOLFAN DYSGU CYMRAEG

Yn wreiddiol o Malaysia, symudodd Foo Seng Thean a'i deulu i Abertawe yn 2015. Foo Seng oedd enillydd y categori 'Siaradwr Cymraeg Newydd' yng Ngwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion y Sefydliad Dysgu a Gwaith eleni.

Mae Foo Seng yn dysgu Cymraeg gyda Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe, sy'n cael ei drefnu gan Brifysgol Abertawe ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Cawson ni air â Foo Seng i ddysgu mwy am ei daith iaith...

Pam roedd det ti eisiau dysgu Cymraeg?

Er mwyn i fi allu gwerthfawrogi'r diwylliant yn well a theimlo fy mod i'n perthyn yma.

Ers pryd wyt ti wedi bod yn dysgu Cymraeg?

Dechreuais i ar gwrs Mynediad i ddechreuwr ym mis Hydref 2022. Erbyn hyn, dw i'n dilyn cwrs ar lefel Canolradd.

Llongyfarchiadau ar ennill gwobr Siaradwr Cymraeg Newydd! Sut deimlad oedd hynny?

Dw i'n teimlo'n hapus iawn achos mae fy ngwaith caled yn cael ei gydnabod. Mae'n deimlad anhygoel.

Sut wyt ti'n defnyddio dy Gymraeg?

Dw i'n ymarfer gyda fy meibion, ac yn defnyddio fy Nghymraeg yn y gwaith yn y Gymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru. Dw i'n aelod o gôr y dysgwyr a dw i'n mwynhau siarad Cymraeg gyda aelodau'r côr. Dw i'n gwylio fideos Dysgu Cymraeg ar YouTube er mwyn ymarfer.

Pa wahaniaeth mae dysgu Cymraeg wedi ei wneud i ti?

Dw i wedi cwrdd â phobl hyfryd ar hyd y daith, a dw i'n teimlo cysylltiad cryfach â'r gymuned. Mae dysgu Cymraeg wedi cynyddu fy hyder yn y gwaith hefyd.

Beth yw'r peth gorau am ddysgu Cymraeg?

Y bobl a'r ymdeimlad o berthyn.

Beth yw dy gyngor i bobl sy'n dysgu Cymraeg?

Byddwch yn amyneddgar.

Beth yw dy hoff air Cymraeg?

"Os gwelwch yn dda" – mae'n swnio'n ffansi!

Beth yw'r cam nesaf gyda dysgu Cymraeg?

Bydda i'n gwrandao a darllen mwy. Yna, gwella fy sgiliau siarad Cymraeg trwy siarad â mwy o bobl. Dw i wedi bod yn ysgrifennu yn ddiweddar, mae'n fy helpu. Dw i hefyd yn bwriadu parhau i ganu'n Gymraeg.



NEWYDDION YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

CEFNOGI BANC BWYD PENLAN

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWCHED

Yn ystod mis Rhagfyr bu aelodau'r chweched wrthi yn brysur yn casglu rhoddion er mwyn cefnogi Banc Bwyd Penlan. Ar fore Mawrth olaf y tymor trosglwyddwyd yr holl roddion draw i'r ganolfan. Roedd pawb wrth eu boddau yn cefnogi ein cymuned ni ym Mhenlan.



Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Ionawr.

Menter Iaith Abertawe sydd yn coladu straeon Wilia. Plis danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Chwefror erbyn Ionawr 26ain trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.



WELSH
LANGUAGE
DRAMA

Mewn Cymeriad yn cyflwyno

Waldo

bardd dewrder, bardd tynerwch

DRAMODYDD
MERERID HOPWOOD

ACTOR
RYLAND TEIFI

CYFARWYDDWR
JANET AETHWY

Chwefror 16, 7.00pm
Neuadd y Nant,
Clydach

Tocynnau

mewncymeriad.cymru

Annette Hughes

(dewiannette@gmail.com)

01792843440/07800973768

Gareth Richards 07779274575

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn mynd i fro'r Garreg Las yn 2026, mae'n addas talu teyrnged i waith a bywyd un o blant amlycaf yr ardal honno, sef y bardd a'r ymgyrchydd heddwch Waldo Williams. Yn y cyflwyniad hwn, cawn gip ar y cwlwm tynn rhwng profiadau ei fywyd, delfrydau ei athroniaeth a'i gerddi ac ystyried mor berthnasol yw ei eiriau ein dyddiau ni.

Crëwyd y cynhyrchiad hwn
mewn partneriaeth ag



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



dylunio: elfen.co.uk

COFFI

SGWRS

CAFFI TŶ TAW

10:30YB-12:00YP



Cyfle i sgwrsio dros baned.
Pop in for a cuppa!

MAWRTH – GWENER
TUE – FRI

TŶ TAW, 9 STRYD CHRISTINA, SA1 4EW